

Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Sir Ddinbych Ebrill 2022 – Mawrth 2026

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Cynnwys

Cynnwys	2
Rhagair	4
1. Cyflwyniad	5
1a. Diben y Strategaeth	5
2. Asesiad o anghenion	7
2a. Y broses o asesu anghenion	7
2b. Canfyddiadau allweddol	8
Materion a Heriau	10
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	11
3. Blaenoriaethau Strategol	11
Blaenoriaeth 1 – Mabwysiadu Dull Ailgartrefu Cyflym	11
Blaenoriaeth 2 – Darparu Gwasanaeth Atal wedi ei dargedu	12
Blaenoriaeth 3 – Sicrhau llety argyfwng a thros dro sy'n eiddo i'r Cyngor	12
Blaenoriaeth 4 – Cryfhau darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol	13
Blaenoriaeth 5 – Ehangu gwasanaethau cefnogi cymunedol	13
Blaenoriaeth 6 – Ehangu mynediad at lety cynaliadwy	14
Blaenoriaeth 7 – Cryfhau gwasanaethau cefnogi Tenantiaeth	14
4. Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid	14
4a. Y budd-ddeiliaid a ymgysylltwyd â hwy	15
4b Adborth budd-ddeiliaid	16

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

5. Asesiadau effaith	18
5a. Y broses asesu effaith	19
5b. Asesiad Rhif 997 – Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les	20
Canfyddiadau allweddol	20
6. Gweithredu, monitro, ac adolygu'r Strategaeth	23
6a. Gweithio gyda phartneriaid	23
6b. Ffynonellau cyllid	23
6c. Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso	23
7. Atodiad A Cynllun gweithredu blaenoriaethau strategol, diwygiad 1, Mawrth 2022	25
7.1 Blaenoriaeth 1 – Mabwysiadu Dull Ailgartrefu Cyflym	25
7.2 Blaenoriaeth 2 – Darparu Gwasanaeth Atal wedi ei dargedu	25
7.3 Blaenoriaeth 3 – Sicrhau llety dros dro sy'n eiddo i'r Cyngor	27
7.4 Blaenoriaeth 4 – Cryfhau darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol	28
7.5 Blaenoriaeth 5 – Ehangu gwasanaethau cefnogi cymunedol	29
7.6 Blaenoriaeth 6 – Ehangu mynediad at lety cynaliadwy	30
7.7 Blaenoriaeth 7 – Darparu gwasanaethau cefnogi Tenantiaeth	31
8. Atodiad B Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym	32
9. Atodiad C Rhestr Dermau	32
Term a diffiniad	32

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Rhagair

Ers i Bandemig Covid-19 ddechrau ym mis Mawrth 2020, yr ydym wedi gweld y nifer o aelwydydd sy'n dod yn ddigartref yn cynyddu'n sylweddol yn Sir Ddinbych. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein cyfarwyddyd i ddod â digartrefedd i ben yn Sir Ddinbych.

Yr ydym yn gwybod y bydd hyn yn her fawr i ni, felly, byddwn yn parhau i ddilyn dull gweithredu Corfforaethol wrth ymgymryd ag adolygiad systematig i atal digartrefedd a darparu cefnogaeth briodol a phrydlon i'r aelwydydd hynny sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Y mae gweithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, y Trydydd Sector a phartneriaid statudol eraill, yn hanfodol i gyflawni ein nodau uchelgeisiol.

Y mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) eisiau dileu ei ddibyniaeth ar lety argyfwng sydd ar ffurf gwely a brecwast. Gwnaed cynnydd eisoes – prynwyd eiddo mawr, ac mae'n cael ei ddatblygu i wyth uned o lety argyfwng hunangynhwysol i deuluoedd. Bydd ar gael o Wanwyn 2022 ymlaen. Y mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu llety argyfwng ar gyfer pobl sengl, a fydd hefyd yn hwyluso mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau cymunedol.

Y mae Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol. Mae ymgysylltu cyn gynted â phosibl â'r aelwydydd hynny sydd mewn risg o fod yn ddigartref yn allweddol i'w hatal rhag dod yn ddigartref. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan bob aelwyd yn Sir Ddinbych fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i atal digartrefedd, a lle bo aelwyd angen cefnogaeth ychwanegol mae gennym wasanaethau hygyrch yn ymyrryd mewn ffordd amserol.

Mae darparu llety diogel, hunangynhwysol a sefydlog yn un o'r heriau mwyaf sydd gennym. Dyma fydd llwyddiant defnyddio dull Ailgartrefu Cyflym i roi terfyn ar ddigartrefedd. Bydd gweithio ar y cyd gyda Gwasanaeth Cynllunio Strategol Sir Ddinbych, ein Tai Cymunedol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn nodwedd allweddol o weithio tuag at ddarparu llety addas. Byddwn hefyd yn ceisio datblygu a gwella'n perthynas gyda Landlordiaid y Sector Rhentu Preifat, a fydd yn bartneriaid hanfodol yn y gwaith o siapio a datblygu ein Model Ailgartrefu Cyflym.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

1. Cyflwyniad

Gweledigaeth Strategaeth Dai a Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych yw:

“Bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion, o fewn cymunedau bywiog a chynaliadwy Sir Ddinbych”
a hefyd “rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych”

Mewn egwyddor, mae chwe thema yn sail i'r weledigaeth:

- Mwy o Gartrefi i Ddiwallu'r Angen a'r Galw Lleol
- Creu Cyflenwad o Dai Fforddiadwy
- Sicrhau Cartrefi Diogel ac Iach
- Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn Sir Ddinbych
- Cartrefi a Chymorth i Bobl Ddiamddiffyn
- Hyrwyddo a Chefnogi Cymunedau

Mewn ymateb i Bandemig Covid-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a oedd yn datgan “Pawb gyda'i gilydd” dull a oedd yn dileu'r angen i awdurdodau lleol ystyried angen blaenoriaethol a bwriadoldeb. Yn ymarferol, golygai hyn fod angen canfod llety ar gyfer pawb a oedd yn cysgu ar y stryd neu mewn mannau ansicr. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwmo i sicrhau nad ydym yn dychwelyd i'r ffyrdd o weithio a ddefnyddid cyn Covid-19.

1a. Diben y Strategaeth

Nod Strategaeth Cymorth Tai CSD yw nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer atal digartrefedd a chefnogaeth yn ymwneud â thai, yn ymwneud â'r Grant Cymorth Tai a dyletswyddau statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Daeth y wybodaeth ar gyfer y strategaeth o asesiad cynhwysfawr o anghenion, yn dilyn ymgynghoriad ag ystod i fudd-ddeiliaid yn cynnwys dinasyddion sy'n defnyddio ein gwasanaethau digartrefedd ac sydd wedi derbyn cymorth gennym. Y nod trosfwaol yw dod â digartrefedd i ben yn ein sir.

Y flaenoriaeth wrth weithredu'r strategaeth hon fydd ymyrryd mewn ffordd amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn, lle bo'n bosibl, atal digartrefedd.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Pan fo digartrefedd yn digwydd byddwn yn ymdrechu i wneud y cyfnod mor fyr â phosibl, gyda'r lefel gywir o gefnogaeth ar gael i ddod â digartrefedd i ben. Byddwn yn sicrhau y llinierir y risg o fynd i gylchred o ddigartrefedd ar bob cyfle.

1b. Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol

Mae'r strategaeth yn bodloni'r gofynion statudol presennol yn Ndedd Tai (Cymru) 2014. Wrth ei datblygu, mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r Strategaeth Dai a Digartrefedd gyfredol, ac wedi ymgorffori'r nodau a'r blaenoriaethau perthnasol. Sail Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai CSDd yw'r ddeddfwriaeth a'r polisiau cenedlaethol canlynol:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Canllawiau Ymarfer Grant Cymorth Tai
- Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Dyrannu Llety a Digartrefedd, 2016
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystad Ddiogeledd
- Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at fyd Oedolion
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Ar lefel leol, y mae'r strategaeth hon yn cyfrannu tuag at y meysydd gwaith canlynol:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017-2022
- Strategaeth Dai a Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych 2021-2026
- Asesiadau o Farchnad Dai Leol Sir Ddinbych 2019
- Cyfrif Refeniw Tai

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

2. Asesiad o anghenion

Y mae Rhaglen Cymorth Tai Llywodraeth Cymru yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud asesiad llawn o anghenion yn yr ardal leol bob pedair blynedd.

Defnyddiwyd Asesiad o Anghenion 2021 i roi gwybodaeth a siapio'r gwasanaethau y byddwn yn eu darparu a sut y byddwn yn eu darparu.

Mae dogfen datganiad o angen wedi ei chyhoeddi ar wahân.

2a. Y broses o asesu anghenion

Defnyddiwyd ystod o dechnegau ymgysylltu ac ymchwil i gasglu a dadansoddi data er mwyn gwneud penderfyniad ar Asesiad o Anghenion Sir Ddinbych, ac yr oedd yn canolbwyntio ar y weledigaeth o:

Bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion, o fewn cymunedau bywiog a chynaliadwy Sir Ddinbych.

Yr oedd y broses yn golygu ymgynghori'n helaeth gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys dinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd, neu sydd wedi eu defnyddio, partneriaid cyflenwi'r Grant Cymorth Tai gan gynnwys Sefydliadau'r Trydydd Sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal â Chyrff y Sector cyhoeddus megis y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ategwyd hyn hefyd gan ystadegau a data o Wasanaeth Digartrefedd Statudol Sir Ddinbych a llwybr sengl y Grant Cymorth Tai.

Y mae'r ffynonellau gwybodaeth allweddol a ddefnyddiwyd i roi gwybodaeth i'r Asesiad o Anghenion wedi eu rhestru isod:

- Prosbectws Tai Fforddiadwy Sir Ddinbych
- Asesiadau o Farchnad Dai Leol Sir Ddinbych 2019
- Asesiad o Les Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych – 2021-2026
- Ystadegau digartrefedd a data tai

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

- Mynegai amddifadedd Cymru
- Asesiad rhanbarthol o anghenion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Data Canlyniadau Cefnogi Pobl
- Trosolwg iechyd ar gyfer Sir Ddinbych
- Data o Wasanaethau Plant
- Y profiad Derbyn Gofal, Sir Ddinbych

2b. Canfyddiadau allweddol

Yn dilyn yr ymgynghoriad, nodwyd yn glir bod yr angen i ddarparu Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal mwy cadarn yn angen blaenoriaethol i leihau'r nifer o aelwydydd a oedd yn gorfod defnyddio gwasanaethau digartrefedd statudol. Ategwyd hyn gan yr angen i sicrhau bod yna ystod o wasanaethau cefnogi cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r aelwydydd hynny sy'n dod yn ddigartref, er mwyn eu cefnogi i gael a chadw tenantiaeth barhaol ac i leihau'r risg o ddod yn ddigartref eto.

Canfyddiad allweddol o fewn Sir Ddinbych yw'r angen i ymbellhau oddi wrth y ddibyniaeth ar lety argyfwng anaddas ar ffurf gwely a brechwast, a cheisio darparu llety argyfwng dros dro sydd o safon uwch ac sydd wedi ei gefnogi'n well. Canfuwyd mai pobl sengl dan 35 mlwydd oed sydd fwyaf tebygol o gael eu rhoi mewn llety sydd ar ffurf gwely a brechwast am gyfnodau sylweddol o amser. Mae hyn o ganlyniad i brinder o eiddo addas ar gyfraddau fforddiadwy, ynghyd â chyfraddau Budd-daliadau Tai is, sydd felly'n eu hatal rhag cael a sicrhau tenantiaeth barhaol.

Y ddwy brif elfen o gefnogaeth a nodwyd yn flaenoriaeth oedd yr angen i gyflenwi darpariaeth fwy hygyrch o ran iechyd meddwl a chymorth i deuluoedd, ni waeth pryd y daeth yr unigolyn neu'r aelwyd i gysylltiad â'r gwasanaethau digartrefedd.

2c. Casgliadau

I grynhoi, mae'r Asesiad o Anghenion Cymorth Tai yn amlinellu'r anghenion presennol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau digartrefedd. Y mae'n nodi'r gofynion cynllunio strategol i sicrhau comisiynu a chaffael effeithiol gwasanaethau grant cymorth tai sy'n rhoi

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

gwerth am arian, i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau cywir er mwyn cefnogi anghenion y dinasyddion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Tra bod gan Gyngor Sir Ddinbych rywfaint o ddarpariaeth o fewn y sir, y mae'n eglur o'r holl dystiolaeth a goladwyd yn yr asesiad bod angen mwy o fuddsoddiad yn y meysydd canlynol;

1. Dinasyddion digartref sengl o dan 35 mlwydd oed

Rhagwelir y bydd poblogaeth aelwydydd sengl Sir Ddinbych yn cynyddu 0.8% y flwyddyn o 2011 i 2033.

Y mae tai cymdeithasol unigolion sengl yn Sir Ddinbych yn hafal i 12.9% o'r stoc. Mae'r galw presennol am lety person sengl yn uwch na'r cyflenwad.

Mae 43.9% o'r bobl sydd ar y rhestr aros angen y math hwn o lety. Adlewyrchir hyn hefyd yn y bobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref.

2. Mae anghenion cymorth ac iechyd meddwl yn cynyddu, gyda gorbryder ac iselder yn cael eu nodi amlaf

Chwyddir cefnogaeth Iechyd Meddwl pan ystyrir dinasyddion sy'n datgan eu bod yn ddigartref. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Sir Ddinbych wedi ailstrwythuro'r tîm digartrefedd i gynnwys darpariaeth ddynodedig ar gyfer iechyd meddwl / camddefnyddio sylweddau, a Gwasanaeth Cwnselydd / Cwnsela. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau yn barhaus er mwyn diwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol sy'n cynyddu, anghenion cymhleth, llai o fynediad at wasanaethau, a'r newidiadau posibl mewn demograffeg.

3. Pobl ddigartref ifanc 16 i 17 mlwydd oed a phlant gydag anghenion cymhleth sydd wedi cael profiad o ofal

Mae'r galw am gefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant yn uchel, ac mae grŵp bach o bobl ifanc cymhleth nad ydynt yn gallu llwyddo i gadw llety dros dro na thai â chymorth. Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2021 yn Sir Ddinbych cafodd 947 o bobl ifanc a oedd angen cefnogaeth eu hatgyfeirio gan y Gwasanaethau Plant. Yr oedd 123 o'r rhain yn 16 a 17 mlwydd oed. Canfuwyd bod gan y bobl ifanc hyn, sy'n datgan eu bod yn ddigartref neu sydd ag anghenion cymorth, lawer o gymhlethdodau.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Ar hyn o bryd mae hyn yn angen nas diwallwyd i grŵp bach o'r bobl ifanc mwyaf cymhleth y mae gennym ddyletswydd i roi llety iddynt a'u cefnogi.

4. Dinasyddion sy'n ymadael o'r ystad ddiogeledd, troseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro ac yn cael dedfryd fer o garchar, a throseddwyr risg uchel

Yn 2019 yn Sir Ddinbych gwnaeth 91 o gyn-droseddwyr gais am gymorth. Yr oedd hyn wedi mwy na dyblu i 202 yn 2020. Mae yna fwch ar gyfer ad-droseddwyr ar ddedfryd fer o garchar sydd angen cefnogaeth barhaus ac achosion risg uchel, gan ei bod yn heriol iawn canfod llety..

5. Menywod yn ffoi rhag cam-drin domestig

Nodir bod anghenion cymorth yn fwy cymhleth, yn aml ceir nifer o anghenion cymorth megis iechyd meddwl a chaethiwed yn ogystal â cham-drin domestig.

6. Pobl hŷn (dros 55 mlwydd oed) ag anghenion cymorth

Mae'n dod i'r amlwg bod pobl dros 55 mlwydd oed yn datgan eu hunain i'r Llwybr atal digartrefedd, sydd ag anghenion cymorth yn ymwneud â'u tenantiaeth. Y mae'r niferoedd sy'n datgan eu bod yn ddigartref yn parhau i fod yn isel.

Materion a Heriau

Mae llety argyfwng a thros dro yn flaenoriaeth i Sir Ddinbych, ac mae llety i berson sengl yn brif flaenoriaeth. Ceir anghydbwysedd rhwng llety ar gyfer unigolion sengl a'r nifer o unigolion sengl sy'n datgan eu bod yn ddigartref ac sy'n aros mewn llety dros dro am gyfnodau sylweddol o amser. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater mae CSDd wedi dechrau dilyn y Model Ailgartrefu Cyflym, a fydd yn cynnig gwahanol lefelau o gefnogaeth i sicrhau bod aelwydydd sy'n datgan yn cael y gefnogaeth gywir pan fo'i hangen. Bydd y rhan fwyaf o aelwydydd a gynorthwyir gydag Ailgartrefu Cyflym yn aelwydydd sengl, sy'n cryfhau'r nod o ddatblygu llety parhaol llai o fewn cymunedau cynaliadwy. Y mae'r angen yng ngogledd y Sir.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Mae CSDd wedi nodi eiddo sy'n perthyn i'r cyngor a bydd hyn o gymorth i sicrhau ein bod yn trawsnewid llety argyfwng fforddiadwy addas. Bydd hyn yn galluogi aelwydydd i weithio a chael y lefel sydd ei hangen o gefnogaeth er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd drwy'r model ailgartrefu cyflym.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Er mwyn gwneud digartrefedd yn Sir Ddinbych yn beth prin, byrhoedlog ac achlysurol, yr ydym angen ystyried atal ac ymyrraeth gynnar, neu ymateb 'i fyny'r afon'.

Er mwyn deall y cysyniad o brosesu i fyny'r afon yn llawn, gweler y fideo 2 funud isod.- [Fideo iechyd cyhoeddus i fyny'r afon](#)

Bydd Sir Ddinbych yn rhoi blaenoriaeth i atal wedi ei dargedu.

3. Blaenoriaethau Strategol

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno ar y blaenoriaethau strategol canlynol ar gyfer darparu'r Grant Cymorth Tai (cefnogaeth yn ymwneud â thai) a dyletswyddau Atal Digartrefedd Statudol, yn unol â'r asesiad o anghenion, ymgysylltiad â budd-ddeiliaid, a pholisi, ymgynghoriad a chanllawiau corfforaethol a Llywodraeth Cymru ehangach. Ceir manylion penodol cynlluniau'r camau blaenoriaeth strategol yn Atodiad A.

O ganlyniad i'r asesiad o anghenion, mae dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Cyngor wedi nodi themâu sy'n dod i'r amlwg o ran datganiadau o ddigartrefedd. Rhoddir sylw'n benodol i sicrhau y bydd pob blaenoriaeth strategol yn cynnwys datganiadau o'r fath – sy'n cynyddu – yn llawn, megis, er enghraifft, pobl ifanc; menywod sy'n ffoi rhag trais domestig; cyn-droseddwyr; pobl dan 35 mlwydd oed; pobl dros 55 mlwydd oed; ac unigolion sy'n dioddef â phroblemau iechyd meddwl.

Blaenoriaeth 1 – Mabwysiadu Dull Ailgartrefu Cyflym

Yr uchelgais yw gallu darparu gwir drawsnewid i'r siwrnai nodweddiadol o fod yn ddigartref ar gyfer aelwydydd, drwy leihau trawma a chynorthwyo i'w hadsefydlu mewn tenantiaeth ddiogel yn dilyn cyfnod o fod yn ddigartref, gan sicrhau bod y cyfnod hwnnw cyn fyrred â phosibl.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Cydbwysu anghenion byrdymor y dinasyddion wrth ddiogelu'r gallu i gael cynlluniau cynaliadwy ar gyfer eu hanghenion hirdymor. Sicrhau bod cynlluniau'n rhoi ystyriaeth i gyfansoddiad demograffig y rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, megis y galw mawr presennol am lety i unigolion sengl.

Cydnabyddir bod blaenoriaethau strategol 2-7 yn allweddol i ddarparu'r dull Ailgartrefu Cyflym yn llwyddiannus a'i wireddu'n gynyddol er mwyn rhoi'r hawl i bawb gael tai digonol.

Datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar gyfer mis Medi 2022 yn unol â pholisi ac argymhellion Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn Atodiad B

Blaenoriaeth 2 – Darparu Gwasanaeth Atal wedi ei dargedu

Mae ymyrraeth gynnar yn ddull cydnabyddedig i atal digartrefedd, fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Rhagwelir bod angen datblygu a chryfhau'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig parthed ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd, fel y gallwn nodi ac ymgysylltu â phobl lawer cynt i atal unrhyw ffactorau risg neu broblemau rhag gwaethygu. Bydd y prosiect ymyrraeth gynnar hwn yn rhan allweddol o'r gwaith yma. Bydd y prosiect o gynnig model ymyrraeth gynnar gadarn, sy'n bendant a rhagweithiol – drwy ymateb yn gynnar er mwyn atal problemau digartrefedd neu eu hatal rhag gwaethygu, o leiaf – yn cynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei amcanion.

Blaenoriaeth 3 – Sicrhau llety argyfwng a thros dro sy'n eiddo i'r Cyngor

Gweithio ar y cyd gyda thai cymunedol a grŵp strategol tai i sicrhau darpariaeth fewnol o lety argyfwng o safon dda er mwyn rhoi llety dros dro i ddinasyddion digartref, a dibynnu llai ar ddefnyddio sefydliadau sydd ar ffurf gwely a brecwast. Gwasanaeth a fydd yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod y cyfnod o fod yn ddigartref yn brin, byrhoedlog, ac na fydd yn digwydd eto; ac sy'n rhoi cefnogaeth i unigolion i'w paratoi i gymryd y camau nesaf tuag at fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Blaenoriaeth 4 – Cryfhau darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol

Y mae darparu cefnogaeth amlddisgyblaethol yn golygu darparu'r gofynion ychwanegol sy'n aml yn gysylltiedig ag unigolion sy'n datgan eu bod yn ddigartref. Mae'r gwasanaeth angen targedu'r rheiny sydd angen cefnogaeth o'r fath a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn sbarduno effeithiolrwydd y dull amlddisgyblaethol. Bydd y gwasanaeth yn ceisio rhoi'r unigolyn yn ganolbwynt, a chydweithio mewn dull sydd wedi ei lywio gan drawma ynghyd â phobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a bydd y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Dinasyddion sy'n wynebu digartrefedd. Sicrhau y perchir nodweddion, diwylliant, credoau, ac urddas y Dinasyddion yn llawn, fel y nodir yn y dyletswyddau trosfwaol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Sicrhau bod gweithgaredd a monitro ansawdd a pherfformiad yn hysbysu'n weithredol lle mae bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth, a bod proffilio digartrefedd yn rhoi gwybodaeth fanwl gywir, gan dargedu meysydd o'r fath er mwyn gwella'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a berthyn i weithio'n amlddisgyblaethol. Fel y mae'r blaenoriaethau strategol yn datblygu, adolygir y gwasanaethau cefnogi yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y model gwasanaeth yn gyfredol yn unol â gofynion unigolion, a bod y bylchau mewn darpariaeth o'r fath ar gyfer iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn cael eu llenwi. Yn ychwanegol at hyn, sicrhau bod buddsoddiad yn y gwasanaeth yn datblygu gwytnwch o fewn y gweithlu i hwyluso recriwtio a chadw staff yn effeithiol.

Blaenoriaeth 5 – Ehangu gwasanaethau cefnogi cymunedol

Gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth gyda sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth i unigolion sydd yn ddigartref, neu sy'n wynebu bod yn ddigartref; hyrwyddo eu hiechyd a'u lles drwy raglenni ymarfer corff; a datblygu sgiliau byw cyffredinol megis coginio a defnyddio TGCh. Sicrhau y mabwysiedir dull cyfunol i gyrraedd nodau lles cyffredinol, wrth hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a gweithio tuag at ddibynnu llai ar ymyrraeth gwasanaethau statudol.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Blaenoriaeth 6 – Ehangu mynediad at lety cynaliadwy

Datblygu mynediad at y sector rhentu preifat, gweithio gyda landlordiaid i wneud y mwyaf o adnoddau, creu atebion blaengar, gweithio gyda thîm Tai Cymunedol y cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, defnyddio rhaglenni gwaith a strategaethau sydd eisoes yn bodoli i ddarparu unedau rhentu cymdeithasol ychwanegol er mwyn rhoi cartrefi parhaol sy'n diwallu anghenion dynodedig, naill ai drwy adeiladu neu addasu stoc bresennol. Mwy o ariannu mynediad a mentrau lle mae'n bosibl i gynorthwyo unigolion i gadw eu tenantiaeth neu i ganfod llety addas pan fônt yn wynebu bod yn ddigartref, er enghraifft cynllun Prydlesu SRhP Cymru.

Blaenoriaeth 7 – Cryfhau gwasanaethau cefnogi Tenantiaeth

Cryfhau gwasanaethau cefnogi tenantiaeth, gweithio gyda Thai Cymunedol y Cyngor, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a thenantiaid y sector rhentu preifat er mwy cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol yr Awdurdod Lleol: "Tai – cefnogir pawb i fyw mewn tai sy'n bodloni eu hanghenion." Bydd y tîm cymorth tenantiaeth yn rhoi cefnogaeth yn ymwneud â thai i unigolion a'u teuluoedd sydd mewn argyfwng neu argyfwng posibl a allai fygwth eu tenantiaeth, drwy ddeall yn llawn yr hyn sy'n atal unigolion rhag cadw tenantiaeth iach, gweithio gydag unigolion i sicrhau y darperir y lefel gywir o gefnogaeth ar yr amser priodol. Yn ogystal, edrych y tu hwnt i'r sefyllfa dai ar yr amser y mae'r gefnogaeth yn dod i ben, ystyried cynaliadwyedd tenantiaeth yn y tymor hirach er mwyn asesu a deall pa mor llwyddiannus yw rhaglenni cefnogaeth wrth roi'r sgiliau i Ddinasyddion i gael mynediad at gymorth prif ffrwd i gynnal eu tenantiaeth.

4. Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

Yn ogystal ag ymgynghori gyda phartneriaid a gwasanaethau mewnol wrth ddatblygu'r strategaeth, cafwyd ymgynghoriad yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r pum ffordd o weithio.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

4a. Y budd-ddeiliaid a ymgysylltwyd â hwy

Ymgynghorwyd â'r Partneriaid, yr Asiantaethau a'r budd-ddeiliaid ehangach canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau
- BIPBC – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPHEM)
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol) CSDd
- Tîm Anableddau Cymhleth CSDd
- Cymorth Dwys i Deuluoedd CSDd
- Tai yn Gyntaf CBSC / CSDd
- Tai Cymunedol CSDd
- Datblygiad Tai CSDd
- Darparwyr cefnogaeth Grant Cynnal Tai GCT
- Defnyddwyr y Gwasanaeth Digartrefedd (dinasyddion)

Defnyddiwyd y ffynonellau ymgysylltu canlynol:

- Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth GCT Gogledd Cymru, a geir yma:
[Holiadur HSG ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Gymraeg](#)
[Holiadur HSG ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Saesneg](#)
- North Wales HSG Provider questionnaire accessed via:
[Holiadur darparwr HSG ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Gymraeg](#)
[Holiadur darparwr HSG ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Saesneg](#)
- Holiadur Budd-ddeiliaid Strategaeth Atal Digartrefedd CSDd.
- Adborth a gafwyd yn dilyn cais mewnol am ymatebion ar ymgynghoriad “rhoi terfyn ar ddigartrefedd” Llywodraeth Cymru, 12 Tachwedd 2021.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

4b Adborth budd-ddeiliaid

Yn rhanbarthol, gweithiodd pob awdurdod lleol ledled gogledd Cymru ar y cyd i ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth i roi gwybodaeth ar gyfer eu strategaeth Grant Cymorth Tai a'i siapio.

Lluniwyd dau holiadur, un i ddinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau wedi eu hariannu gan y grant cymorth tai, a'r llall i ddarparwyr sy'n derbyn cyllid o'r grant cymorth tai er mwyn darparu cefnogaeth.

Datblygwyd holiadur arall – un lleol – yn benodol ar gyfer sefydliadau partner ac adrannau mewnol y cyngor.

Anfonwyd yr holiaduron ar yr un adeg ar gyfer ymatebion yn rhoi cyfnod ymgynghori o bedair wythnos. Cafwyd ymgynghoriad arall pan gwblhawyd y Strategaeth.

Yr oedd dewis o lenwi'r holiadur defnyddwyr gwasanaeth ar-lein neu ar bapur. Yr oedd yr holiadur i ddarparwyr ar-lein yn unig.

Derbyniodd Sir Ddinbych 125 o ymatebion gan ddinasyddion, a 22 o ymatebion gan ddarparwyr, a 5 gan bartneriaid.

Dyma'r themâu mwyaf cyffredin a gafwyd gan ddinasyddion:

- Dywedodd 30% nad oeddent yn gwybod sut i gael cefnogaeth.
- Awgrymodd dinasyddion y dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael.
- Hoffai 50% gael cymorth ar y ffôn neu dros y we.
- Dywedodd 75% nad oedd unrhyw beth yn eu rhwystro rhag cael cymorth dros y we neu ar y ffôn, nododd y gweddill fod amryw o rwystrau yn eu hatal rhag cael cymorth ar-lein, megis methu fforddio rhoi arian ychwanegol ar eu cyfrif, nid ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio'r we, anabledd, maent yn ddall neu'n drwm eu clyw.
- Yr oedd cludiant cyhoeddus yn un rheswm dros beidio â bod eisiau cefnogaeth wyneb yn wyneb. "Mae'n rhatach teithio o gwmpas Llundain ar y Tiwb nag ydy hi i deithio yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych", ac mae'r gwasanaeth bws yn anfyfych.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

- Mae dinasyddion yn teimlo na allent fforddio tai rhent preifat; mae hyn yn achosi i bobl deimlo'n brin o gymhelliad.
- Nododd ychydig llai na 50% fod ganddynt anabledd.
- O'r 125 o ymatebion, yr oedd 75 o dan 35 mlwydd oed.
- O 104 o ymatebion, nododd 16 fod eu rhywedd yn wahanol i'r hyn a nodwyd ar eu cyfer pan gawsant eu geni.
- O 123 o ymatebion, y mae 70 o ddinasyddion yn sengl, heb fod mewn perthynas.

Dyma'r themâu mwyaf cyffredin a gafwyd gan ddarparwyr cefnogaeth:

- Y mae cynnydd mewn anghenion cymhleth, sy'n achosi ymyrraeth argyfwng.
- Gellid gwella mynediad at wasanaethau sydd wedi eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai.
- Y mae darparwyr yn gefnogol o roi cymorth wyneb yn wyneb neu dros y we, yn unol â dewis y dinesydd.
- Teimlir bod prinder capasiti yn y gwasanaethau lechyd Meddwl, ac o ganlyniad mae darparwyr yn llenwi'r bylchau ac yn darparu mwy o gefnogaeth o ran lles i achosion cymhleth yn aml, ac mae hyn yn cael effaith ar staff.
- Ers y pandemig, teimla darparwyr fod gan ddinasyddion anghenion lluosog, gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau; a cheir cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig yn ogystal.
- Nodwyd mai prinder tai cymdeithasol ac eiddo i'w rhentu'n breifat yw'r rhwystr mwyaf sy'n atal pobl rhag symud ymlaen o lety â chymorth a llety dros dro; a dyma'r rhwystr ymddangosiadol mwyaf rhag Ailgartrefu Cyflym.
- Mae rhai darparwyr yn cael trafferthion recriwtio o ganlyniad i ddiffyg sicrwydd swydd, gwobrwyon, cyflog, cydnabyddiaeth a hirhoedledd.
- Y mae angen cynyddu darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol i weithio gydag unigolion sydd ag anghenion difrifol a mwy o wybodaeth ynghylch cam-drin domestig.
- Mae darparwyr eisiau i Sir Ddinbych roi blaenoriaeth i ailgartrefu cyflym, ymyrryd yn gynnar i atal digartrefedd, a chefnogaeth therapiwtig.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Dyma'r themâu a gafwyd gan bartneriaid ac adrannau mewnol y cyngor:

- Pryder ynglŷn â diffyg mynediad at dai ac adeiladu tai fforddiadwy.
- Prinder darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth, megis anawsterau dysgu, a sut y maent yn aml yn syrthio rhwng dwy stôl.
- Gall gwiriadau cydweddoldeb ar lety a rennir achosi oedi yn y broses o sicrhau tenantiaeth, yn arbennig wrth ymdrin ag anghenion mwy cymhleth.
- Nid yw'r cyflenwad o lety'n diwallu rhai o'r anghenion mwyaf, megis pobl sengl. Y mae 750 o unigolion sengl wedi eu cofrestru ar gyfer tai rhent cymdeithasol, ond cyfanswm o 60 yn unig o dai un ystafell wely sydd gennym gan yr holl landlordiaid cymdeithasol ar gyfartaledd bob blwyddyn.
- Problem gyda staff Digartrefedd – eu cadw a'u recriwtio – yn aml, ni fydd unrhyw ymgeiswyr am swyddi gweigion, neu nid yw'r ymgeiswyr yn cyrraedd y safon.
- Y mae oedi o ran datblygiad bob tro oherwydd y broses gynllunio, isadeiledd ac adeiladu'r cartrefi. Gallai symud tuag at ddulliau adeiladu mwy modern leihau'r oedi, ond nid ei ddileu.
- Y mae angen gwella drwy gynyddu lefel y gefnogaeth a ddarperir i landlordiaid cymdeithasol drwy'r cynllun Grant Tai Cymdeithasol – o ran faint o gefnogaeth sydd ar gael a'r gyfradd ymyrraeth a weithredir, gan nad yw'r rhain yn ddigonol ar hyn o bryd i allu darparu tai cymdeithasol parhaol ychwanegol ar y raddfa sydd ei hangen.

5. Aseidiadau effaith

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob peth a wnawn, er mwyn gwella ansawdd bywyd i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Sir Ddinbych.

Datblygwyd gweledigaeth y cyngor ar gyfer dyfodol mewn partneriaeth â chymunedau lleol a phartneriaid. Ein nod strategol yw bod yn gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel ac sy'n agos at y gymuned.

Mae ein [Cynllun Corfforaethol yn cynnwys](#) yr holl weithgareddau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol sy'n digwydd drwy'r Cyngor. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi eu hymgorffori yn holl wasanaethau'r Cyngor.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd bob pedair blynedd, hyd yn oed os yw wedi cael ei ymgorffori mewn cynllun arall. Felly bydd ein hamcanion cydraddoldeb o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu datblygu trwy ymgysylltu â'n cymunedau; eu hadolygu o ran beth mae data lleol yn ei ddweud wrthym ynghylch anghydraddoldeb; ac mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn dogfen o'r enw 'A yw Cymru'n Decach? 2018'. Pan fydd yr amcanion cydraddoldeb strategol interim newydd hyn wedi eu hystyried, ac ymgynghorwyd a chytunwyd arnynt, byddant yn rhedeg ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol (a oedd yn canolbwyntio ar sgwrs a arweiniwyd gan y gymuned ac ymgynghoriadau gyda'n hymgysylltiad 'Sgwrs y Sir') ar ffurf Cynllun Cydraddoldeb Strategol Interim a fydd hefyd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol nesaf 2022 i 2027.

Ein blaenoriaethau presennol yw:

- Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;
- Cysylltu Cymunedau: Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da;
- Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a chadernid;
- Amgylchedd: Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a
- Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny.

Yr ydym wedi gwneud asesiad effaith priodol o'r strategaeth fel rhan o'r broses gynllunio strategol, yn benodol parthed y blaenoriaethau strategol a nodir yn nhrydedd adran y strategaeth.

5a. Y broses asesu effaith

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu dull newydd ac arloesol o asesu effaith. Mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn ystyried effaith cynigion ar ystod o faterion. Lluniwyd ein dull newydd, yr 'Asesiad o Effaith ar Les', i asesu effaith debygol cynigion ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Mae'n cyfannu gofynion i asesu effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg, yr amgylchedd, yr economi, iechyd, ac ati.

Mae'r Asesiad o Effaith ar Les yn amlygu unrhyw feysydd risg ac yn gwneud y mwyaf o fuddion y cynigion yn yr holl faterion hyn, gan gynnwys cydraddoldeb. Mae'n ein cynorthwyo i sicrhau ein bod wedi ystyried pawb a allai gael eu heffeithio gan y cynnig. Mae hefyd yn ein cynorthwyo i fodloni ein cyfrifoldebau cyfreithiol dan y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol (Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn y Ddeddf hon), Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a mynediad at ddeddfwriaeth gwybodaeth. Mae hefyd yn ofynnol dan ddeddfwriaeth Hawliau Dynol i Awdurdodau Lleol ystyried Hawliau Dynol wrth ddatblygu cynigion.

Bydd ein dull asesu effaith yn ein cynorthwyo i gryfhau ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb. Bydd hefyd o gymorth wrth nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol neu anghymesur posibl cyn cyflwyno rhywbeth newydd neu newid y ffordd yr ydym yn gweithio.

5b. Asesiad Rhif 997 – Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les

Canfyddiadau allweddol

Derbyniodd Cynaliadwyedd yr asesiad o effaith ar les sgôr o 3 seren o 4, a chyfanswm y sgôr oedd 33 o 36.

Darparodd yr asesiad grynodeb ar gyfer pob egwyddor Datblygu Cynaliadwy:

Hirdymor

Y mae'r strategaeth yn seiliedig ar "roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru"; fe'i hysgrifennwyd dan arweiniad Llywodraeth Cymru; y mae'n ymwneud yn uniongyrchol â dinasyddion sydd yn y sefyllfa hon; y mae'n ymdrin yn amlwg â materion byrdymor, fodd bynnag y mae hefyd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd nodau hirdymor; rhoddir ystyriaeth i newid hinsawdd er na ddylanwedir yn uniongyrchol ar hyn yn y strategaeth.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Atal

Mae canfod ffyrdd newydd o hyrwyddo gwytnwch ac annibyniaeth yn nodwedd bwysig i'r strategaeth. Mae natur digartrefedd yn ei hanfod yn aml yn gofyn am lefel uchel o wytnwch personol yn y dinasyddion. Mae angen sianelu hyn mewn ffordd gadarnhaol. Cynlluniwyd y gwaith atal i atal dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus ac i roi dewis a rheolaeth i ddinasyddion yn gynt.

Integreiddio

Y mae'r strategaeth yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol Tai, Cysylltu Cymunedau, Cymunedau Cryf, yr Amgylchedd, a Phobl Ifanc, a gellir gweld hyn yn saith blaenoriaeth y strategaeth: ailgartrefu cyflym, gwasanaethau atal, sicrhau llety, cryfhau gwasanaethau amlddisgyblaethol, cefnogaeth gymunedol, llety cynaliadwy, a chefnogaeth denantiaeth.

Cydweithio

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio'n amlwg ar gydweithio, ac er nad yw'r gwasanaeth digartrefedd craidd mewn darpariaeth statudol i roi terfyn ar ddigartrefedd yn ddull unochrog, mae cydweithio rhwng partneriaid yn allweddol wrth ddeall y problemau a wynebir a pha atebion y gall pob partner eu darparu. Un dull cydweithredol o'r fath yw cyflogi gweithwyr arbenigol o'r Bwrdd Iechyd Lleol i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau, a'u hintegreiddio i'r tîm er mwyn darparu ymyrraeth amserol ac effeithiol i gefnogi unigolion sy'n wynebu bod yn ddigartref.

Cyfranogi

Mae'r strategaeth wedi ei seilio ar y nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, drwy gyfranogi, cydweithio, ac integreiddio gwasanaethau mewnol, darparwyr cefnogaeth, dinasyddion, partneriaid megis y Bwrdd Iechyd Lleol, gwasanaethau carchardai a Phrawf a chefnogaeth yn y gymuned – y cyfan â'u bryd ar ddarparu rhaglenni atal i liniaru digartrefedd. Heb egwyddorion ymgysylltu â'r cyhoedd, ni fyddai'r strategaeth yn cyflawni ei fwriadau. Y mae ymgysylltu, ymgynghori a chyfranogi oll yn allweddol i ddeall y problemau sy'n wynebu pobl ddigartref.

Y mae Crynodeb o'r Effeithiau'n dangos:

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Nodau Iles

- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych wydn
- Sir Ddinbych iachach
- Sir Ddinbych fwy cyfartal
- Sir Ddinbych sydd â chymunedau cydlynol
- Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Prif gasgliadau a thystiolaeth i gefnogi'r Asesiad o Effaith ar Les

Mae'r asesiad o effaith ar les yn dangos yn eglur bod Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, a'i swyddogaeth i roi terfyn ar ddigartrefedd, yn cael effaith gadarnhaol ym mhob maes o'r nodau Iles. Mae'r nodau byrdymor yn allweddol i gynaliadwyedd y nodau hirdymor. Mae'r blaenoriaethau strategol yn rhoi cydraddoldeb, amrywiaeth a pharch i ddinasyddion diamddiffyn sy'n ddigartref neu sy'n wynebu bod yn ddigartref.

- Yr ydym wedi ymgynghori ag ymchwil neu ganllawiau wedi eu cyhoeddi sy'n rhoi gwybodaeth i ni ynglŷn ag effaith debygol y cynnig
- Yr ydym wedi cynnwys arbenigwr / wedi ymgynghori â grŵp sy'n cynrychioli'r bobl a allai gael eu heffeithio gan y cynnig
- Yr ydym wedi ymgysylltu gyda phobl a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

O fewn yr Asesiad o Effaith ar Les y mae dewis o wneud asesiad o effaith ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Y mae hyn yn ddewisol. Er bod y data gweithredol yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth, nid yw hynny'n wir am y strategaeth ei hun. Felly, ni wnaethpwyd asesiad o'r fath.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

6. Gweithredu, monitro, ac adolygu'r Strategaeth

6a. Gweithio gyda phartneriaid

Bydd y cyngor yn gweithio gyda Phartneriaid i sicrhau bod y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu yn cael eu gweithredu a'u monitro fel y bo'n briodol, ac i adolygu a diwygio unrhyw gynlluniau lle bo'r angen, yn seiliedig ar werthuso perfformiad. Ein partneriaid yw:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol BIPBC
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPHEM)
- Pob un Darparwr Cefnogaeth y Grant Cynnal Tai (GCT)
- Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd CSDd
- Tai Cymunedol CSDd
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion CSDd
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant CSDd

6b. Ffynonellau cyllid

Defnyddir y ffrydiau cyllido canlynol i weithredu'r strategaeth:

- Grant Cymorth Tai
- Cyllid Craidd (darpariaeth gwasanaeth statudol)
- Gwasanaethau Ieuentid / Plant.

6c. Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

Er mwyn bodloni ein hymrwymiad i gyflawni'r saith blaenoriaeth strategol, mae angen i ni sicrhau, ynghyd â'n partneriaid, bod gennym y sgiliau, y gwasanaethau, yr adnoddau, a'r isadeiledd ar gyfer cyflawni amcanion y Strategaeth, gan wneud y mwyaf o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i gyflawni'r cynllun.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

I gyflawni'r blaenoriaethau strategol ac amcanion, datblygwyd cynllun gweithredu (ATODIAD A) mewn partneriaeth â phartneriaid a budd-ddeiliaid, i amlinellu camau allweddol i'w cyflawni dros oes y strategaeth.

Bydd grŵp strategol Digartrefedd a Thai yn ymwneud yn y gwaith o gyflawni a monitro'r strategaeth ddigartrefedd a'r cynllun gweithredu. Y mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis ac mae'n cynnig dull ar y cyd o fynd i'r afael â digartrefedd drwy rannu gwybodaeth, gwella cydweithio a chyfrannu at gyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd. Caiff y cynllun gweithredu ei lywodraethu a'i fonitro gan uwch reolwyr y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Thai Cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol ynghyd â dull cydlynol a chynhwysfawr o atal digartrefedd.

Mae dull partneriaeth ar y cyd yn hanfodol i gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol ac arloesol sydd yn y strategaeth hon, a diwallu gweledigaeth Sir Ddinbych ar gyfer digartrefedd.

Crëwyd swyddogaeth o fewn y tîm Craidd i fonitro pob data perfformiad er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau strategol, camau gweithredu archwilio, a chynlluniau gweithredol, ac i sicrhau y darperir y gwasanaeth mwyaf effeithiol ac amserol. Bydd monitro data y tu hwnt i ofynion statudol yn gynllun gweithredol penodol a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

7. Atodiad A Cynllun gweithredu blaenoriaethau strategol, diwygiad 1, Mawrth 2022

7.1 Blaenoriaeth 1 – Mabwysiadu Dull Ailgartrefu Cyflym

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.1.1	Datblygu Cynllun Pontio	Yn unol â chanllawiau LIC	Drafft Mehefin 2022 Gorffen / cyhoeddi Medi 2022	Rheolwr Gwasanaeth / Arweinydd Strategol
7.1.2	Gweithredu Cynllun Pontio	I'w ddiwygio Medi 2022	Mawrth 2027	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

7.2 Blaenoriaeth 2 – Darparu Gwasanaeth Atal wedi ei dargedu

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.2.1	Tendro ar gyfer prosiect Ymyrraeth Gynnar	Dyfarnu'r Tendr	Mawrth 2022	Arweinydd Strategol

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.2.2	Gweithredu a sefydlu'r prosiect Ymyrraeth Gynnar	Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd canlyniadau'r prosiect	Gweithredu 2ail chwarter 2022 Cyflawni'r Prosiect 2027	Arweinydd Strategol
7.2.3	Datblygu rhaglen addysg ar gyfer plant a phobl ifanc	Nodi budd-ddeiliaid allweddol, datblygu cynlluniau i godi ymwybyddiaeth o ddiartrefedd mewn addysg uwchradd ac addysg bellach	Medi 2022 – a'i weithredu'n barhaus	Arweinydd Strategol trwy bartneriaid cyflenwi
7.2.4	Adolygu a gwella llwybrau digartrefedd ar gyfer grwpiau penodol, e.e. plant sy'n derbyn gofal, troseddwyr	Mapio'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau mewn gwasanaethau, datblygu llwybrau wedi eu mireinio yn unol â chanllawiau LIC ac angen lleol	Mawrth 2023	Rheolwr Gwasanaeth

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

7.3 Blaenoriaeth 3 – Sicrhau llety dros dro sy'n eiddo i'r Cyngor

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.3.1	Datblygu Strategaeth ar gyfer gwneud llai o ddefnydd o lety gwely a brecwast	Dilyn arwyddion o gwblhau prosiectau ar gyfer gwaith datblygu mewnol gyda darparwyr presennol ar gyfer Pontio	Mawrth 2023	Pennaeth Gwasanaeth GCC Pennaeth Gwasanaeth Tai
7.3.2	Defnyddio stoc y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer llety dros dro	Cynnal nifer digonol o unedau o fewn stoc bresennol y CRT	31 Mawrth 2023	Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol
7.3.3	Darparu 8 uned o lety ar gyfer teuluoedd	Caffael ac addasu cyn gartref gofal	30 Medi 2022	Rheolwr Datblygu Tai
7.3.4	Darparu 24 uned o lety ar gyfer unigolion sengl	Addasu stoc dai'r Cyngor	30 Medi 2023	Rheolwr Datblygu Tai
7.3.4	Provision of 24 units of single person accommodation	Re-purposing of Council housing stock	By 30 September 2023	Housing Development Manager

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

7.4 Blaenoriaeth 4 – Cryfhau darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.4.1	Datblygu fframwaith ansawdd a pherfformiad i fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth cefnogi amlddisgyblaethol	Datblygu systemau monitro i sicrhau y defnyddir gwybodaeth o safon ar gyfer gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaeth	Rhagfyr 2022	Rheolwr Gwasanaeth Arweinydd Strategol
7.4.2	Strategaeth Tai yn Gyntaf	Datblygu gwasanaeth tai yn gyntaf y tu hwnt i brosiect braenaru, yn unol â gwerthusiad Llywodraeth Cymru	Mawrth 2023	Rheolwr Gwasanaeth / Rheolwr Tai yn Gyntaf
7.4.3	Canolbwynt Cefnogaeth / canolfan frysbenneu	Datblygu canolbwynt cefnogaeth / canolfan frysbenneu amlddisgyblaethol yn unol â'r prosiect llety argyfwng dros dro mewnol	4ydd chwarter 2023	Pennaeth Gwasanaeth GCC

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.4.4	Llwybrau Cefnogaeth	Datblygu llwybrau cefnogaeth mewnol cadarn, gyda pharmedrau dangosol ar gyfer SAD / YCDd / YCA / TyG, a llwybr darparwr cefnogaeth	Medi 2022	Rheolwr Gwasanaeth
7.4.5	Model Cyflenwi	Adolygu model cyflenwi'r dull TAMl yn rheolaidd, ymgorffori cynlluniau datblygu ar gyfer y gweithlu	Blynyddol	Rheolwr Gwasanaeth

7.5 Blaenoriaeth 5 – Ehangu gwasanaethau cefnogi cymunedol

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.5.1	Mapio darpariaethau presennol ledled y sir	Datblygu cynllun i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn gwasanaethau cefnogi cymunedol	Mawrth 2023	Rheolwr Gwasanaeth

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.5.2	Gweithredu cynllun cyflawni yn unol â chynllun ailgartrefu cyflym	Caffael gwasanaethau cefnogi cymunedol yn seiliedig ar fylchau a nodwyd yn yr asesiad o anghenion	Mawrth 2024	Rheolwr Gwasanaeth

7.6 Blaenoriaeth 6 – Ehangu mynediad at lety cynaliadwy

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.6.1	Ehangu mynediad i gartrefi ar gyfer rhent cymdeithasol	Monitro newidiadau i God Canllawiau LIC ar “Ddyrannu Tai Cymdeithasol a Digartrefedd”	31 Mawrth 2023	Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol
7.6.2	Tai Cymunedol i sicrhau bod y stoc dai bresennol yn diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf o’u hangen	Cyflawni camau gweithredu’r Cynllun Defnydd Gorau o Stoc i gynyddu’r cyflenwad o dai	Yn barhaus / Dyddiadau amrywiol	Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.6.3	Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ystyried dull tebyg	Yn barhaus / Dyddiadau amrywiol	Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol

7.7 Blaenoriaeth 7 – Darparu gwasanaethau cefnogi Tenantiaeth

Isadran	Manylion	Camau Gweithredu	Amserlen	Unigolion Arweiniol
7.7.1	Adolygu'r system yn gyfan yn unol â'r cynllun ailgartrefu cyflym	Diffinio lefelau a pharamedrau darparu cefnogaeth	Rhagfyr 2022	Rheolwr Gwasanaeth
7.7.2	Gweithredu'r cynllun cyflawni ar gyfer gwasanaethau cefnogi tenantiaeth	Aildrefnu gwasanaethau cefnogi tenantiaeth gyda'r paramedrau a'r lefelau cefnogaeth a nodwyd	Gweithredu Rhagfyr 2023 a'i adolygu'n barhaus	Rheolwr Gwasanaeth
7.7.3	Datblygu model Llety â Chymorth newydd yn unol â'r cynllun pontio ailgartrefu cyflym	Datblygu a gweithredu cynllun comisiynu	2026 / 2027	Pennaeth Gwasanaeth GCC

CSDd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

8. Atodiad B Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym

I'w gwblhau fis Medi 2022 (drafft ym Mehefin 2022). Dogfen strategaeth y RhCT i gael ei diwygio ar ôl ei gwblhau.

9. Atodiad C Rhestr Dermau

Term a diffiniad

- All - Awdurdod Lleol
- BIPBC - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- CaBSDd - Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
- CBSC - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- CSDd - Cyngor Sir Ddinbych
- CSyFf - Cyngor Sir y Fflint
- GCPHEM - Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- GCT - Grant Cymorth Tai
- GTC - Grant Tai Cymdeithasol
- HGC - Heddlu Gogledd Cymru
- LIA - Llety Argyfwng
- LIC - Llywodraeth Cymru
- LIDD - Llety Dros Dro
- RhCT - Rhaglen Cymorth Tai
- SAD - Swyddog Atal Digartrefedd
- SRhP - Sector Rhentu Preifat
- TAml - Tîm Amlddisgyblaethol
- TGCh - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- TyG - Tai yn Gyntaf
- YCA - Ymyrraeth Cyfnod Allweddol
- YCDd - Ymarferydd Cefnogaeth Ddigartrefedd